# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 7FED MAWRTH, 2018**

Lleoliad

**Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 27/02/18)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jason Humphreys | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| David Mclean | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Peter Lunt Williams | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Cynghorydd Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017, fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 8 - 23

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 10 Hydref 2018.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 11/10/17

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (is-gadeirydd)

David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden) a Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd), Jason Humphreys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog) a Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Nia Jeffreys yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2017, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod y Pwyllgor Ymgynghorol yn statudol a bod yr aelodaeth yn unol â Rhan 6(2)(a-j) Gorchymyn Diwygio Harbwr Porthmadog. Derbyniwyd cais gan Clwb Rhwyfo Porthmadog i gael cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Ymgynghorol. Nododd yr eglurwyd iddynt bod Dr John Jones-Morris yn cynrychioli buddiannau hamdden ar y Pwyllgor Ymgynghorol a gellir cyfeirio materion ato i dderbyn ystyriaeth.
- Bod 135 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn Harbwr Porthmadog yn 2017 o gymharu gyda 129 yn 2016. Roedd yn galonogol bod cynnydd bychan yn y niferoedd eleni.
- Bod Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth wedi cyhoeddi addasiadau i'r Cod Diogelwch Porthladdoedd ym mis Tachwedd 2016. Roedd copïau o'r cod newydd wedi ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol gyda chopi hefyd ar gael ar wefan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau.

- Cynhaliodd archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau arolygiad trylwyr o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd rhwng y 19eg a'r 21ain o Fedi 2017. Barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi Deiliwr Dyletswydd. Fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli yn ystod yr archwiliad. O ran Harbwr Porthmadog, bod y sylwadau a dderbyniwyd yn wych ac nid oedd problemau wedi dod i'r amlwg. Diolchodd i'r Harbwr Feistr a'r Uwch Swyddog Harbyrau am eu gwaith yn sicrhau bod y ddogfennaeth briodol mewn lle.
- Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan yr archwilwyr ar ddiwrnod y cyfarfod yn amlinellu'r materion a fydd angen sylw gan y Cyngor. Eglurodd bod gan y Cyngor gyfnod penodol i addasu trefniadau ac fe fyddai Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r gwasanaeth oddi fewn 12 mis o gyflwyno'r adroddiad ble bydd disgwyl bod argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad wedi eu gweithredu. Nododd y byddai'n cylchredeg copi o'r adroddiad i'r aelodau.
- Yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr cytunwyd mewn egwyddor byddai'n fuddiol bod dyddiad yr ail ymweliad yn cyd-fynd a dyddiad Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr. Awgrymwyd i'r archwilwyr byddai'n fuddiol bod yr archwilwyr yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog gan wahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli i'r cyfarfod ym mis Hydref 2018.
- Ni dderbyniwyd sylwadau o ran y Côd Diogelwch Morwrol yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf.
- Cafwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar yr 2il Awst 2017. Mewn cymhariaeth ac adroddiadau blaenorol roedd adroddiad 2017 yn cadarnhau gwelliant pellach yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Porthmadog. 'Roedd siart yn arddangos lleoliadau cyfredol y cymhorthion mordwyo wedi eu rhannu yn y cyfarfod.
- Bod 1 Rhybudd i Forwyr (Rh-15/2017) mewn grym yn Harbwr Porthmadog. Roedd y rhybudd wedi ei ryddhau oherwydd nad oedd bwi rhif 8 ar ei safle priodol. Eglurodd bod y bwi wedi symud at gyfeiriad Bwi rhif 6 ac fe fyddai'n cael ei ail leoli ar y cyfle cyntaf.
- Bod Bwiau rhif 1, rhif 3 a rhif 11 wedi eu terfynu. Pe byddai eu hangen yna fe fyddai'r bwiau yn cael eu hail leoli yn y lleoliadau priodol fel bod angen. Nododd bod y gwasanaeth wedi hysbysu Tŷ'r Drindod.
- Bod cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Porthmadog (tymhorol) wedi ei ymestyn i ddiwedd Rhagfyr 2017 yn ogystal â Chymhorthion Harbwr Aberdyfi ac Abermaw. Byddai ymestyn y cyfnod cyflogaeth yn sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y sir dros fisoedd y gaeaf.
- Diolch i staff yr Harbwr am ansawdd eu gwaith a'u hymrwymiad i'r gwasanaeth a oedd yn ganmoliadwy.
- Y codir ffi nominal ar ddefnyddwyr angorfeydd cychod bach yn ardal Borth y Gest o Ebrill 2018 ymlaen.
- Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth argymhellir fod ffioedd Harbwr Porthmadog yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Pwysleisiodd mai drafft yn unig a gyflwynwyd yn y rhaglen, a bod y ffioedd yn ddarostyngedig i dderbyn cadarnhad gan Aelod Cabinet – Datblygu'r Economi a fe'u cadarnheir yn y cyfarfod nesaf.
- Bod darpariaeth talu gyda cherdyn yn yr Harbwr bellach a'i fod yn welliant sylweddol a oedd yn hwyluso trefniadau talu i ddefnyddwyr.

Manylodd yr Harbwr Feistr ar y rhaglen waith cynnal a chadw a gofynnwyd i aelodau dynnu sylw at unrhyw waith ychwanegol y dylid ei ystyried. Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden bod ardal Pencei yn edrych yn daclusach a'i werthfawrogiad bod yr Harbwr Feistr

wedi torri'r gwair. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth yn awyddus i gynorthwyo'r Ganolfan o ran cynnal a chadw eu llecyn gwyrdd.

Rhoddodd Gynrychiolydd Buddiannau Hamdden ddiweddariad ar fwriad Clwb Hwylio Madog i gyflwyno cais ar gyfer cynyddu nifer pontŵns yn yr Harbwr. Nododd y derbyniwyd 2 amcan bris ar gyfer gwireddu'r cynllun yn ddiweddar. Byddai angen asesu'r angen am y ddarpariaeth ynghyd â sut yr ariennir y cynllun. Cadarnhaodd y byddai'n cysylltu efo'r Gwasanaeth Morwrol i gadarnhau'r sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed grisiau'r môr, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y grisiau o wneuthuriad llechi a bod canllawiau wedi eu gosod oherwydd bod nifer yn llithro arnynt. Ychwanegodd yn dilyn gosod y pontŵns eu bod allan o ddefnydd a bod mynediad i'r cyhoedd o'r pontŵns. Nododd nad oedd clo ar y giât felly nid oedd cyfyngiad ar ddefnydd y cyhoedd.

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiad risg er adnabod a lleihau unrhyw risg yn ymwneud â gyrru a pharcio cerbydau ar diroedd yn ffinio swyddfa'r Harbwr Feistr. Eglurodd oherwydd cynnydd yn nifer cerddwyr yn cerdded o'r briffordd ar hyd ochr y cei at gyfeiriad y swyddfa ni chaniateir i gerbydau'r gwasanaeth cael eu gyrru ar hyd y llwybr hwn. Nododd bod llwybr amgen wedi ei adnabod a fyddai'n golygu gellir cael mynediad at y gweithdy heibio cefn adeilad y Ganolfan.

Ychwanegodd ni chaniateir mynediad at yr adeilad oni bai ar adegau pan oedd angen llwytho neu ddadlwytho nwyddau yn gysylltiedig â gwaith yr harbwr. Ni chaniateir i unrhyw gerbyd barcio ar y llecyn yn rhedeg cyfochrog ac adeilad yr Harbwr Feistr. Roedd llecynnau parcio amgen ar gael i ymwelwyr unai yn y Ganolfan neu yn y maes parcio talu ac arddangos yng nghefn yr adeilad harbwr.

Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r bwriad.

Eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth Eiddo yn cynnal trafodaethau efo'r Ganolfan a byddai'n cysylltu â'r Gwasanaeth i dderbyn diweddariad ar y trafodaethau.

Nododd aelod y dylid bod modd cyfeirio mater yn uwch yn yr Adran yn hytrach na bod gwrthdaro rhwng y Ganolfan a swyddogion. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y gallai'r cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r Ganolfan wedi bod yn well, ond ei fod yn obeithiol y gellir dod i ddealltwriaeth a fyddai'n dderbyniol i'r Ganolfan.

Rhannwyd copi o grynodeb cyllidebol terfynol 2016-17 a diweddariad ar gyllideb 2017-18 hyd at ddiwedd Medi 2017 yn y cyfarfod. Tynnwyd sylw bod diffyg yn erbyn y targed incwm ar gyfer 2016-17 ond bod tanwariant o £2,168 yng nghyllideb 2016-17. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn falch o ymrwymiad y staff a oedd yn gweithio'n effeithiol o fewn yr adnoddau prin. Cyfeiriwyd at sefyllfa gyllidebol 2017-18 hyd at ddiwedd Medi 2017, gan nodi y buddsoddwyd mewn cwch newydd i'r Harbwr a oedd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwaith ac o'r herwydd y rhagwelir gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd y ceisir ariannu'r gwariant o gronfeydd ac o ganlyniad byddai'r sefyllfa gyllidebol yn well na llynedd.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed cyllideb Traeth y Greig Ddu, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd cyllideb traethau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Ymgynghorol. Nododd y byddai'n anfon gwybodaeth gyllidebol traethau i'r aelodau.

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn Harbwr Porthmadog yn ystod 2017, a oedd yn cynnwys Ras Cychod Hir Celtaidd Pwllheli i Borthmadog a diwrnod ar gyfer Sefydliad y Bâd Achub.

Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol bod digwyddiad Badau Dŵr Personol wedi ei gynnal yn ogystal â fe godwyd £4,237 at elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Ychwanegodd y gobeithir cynnal y digwyddiad eto'r flwyddyn nesaf.

Nododd aelod bod grŵp Caru Port wedi derbyn arian gan TESCO i gynnal digwyddiad megis Hwyl yr Harbwr gyda'r awydd yn lleol i gynyddu'r defnydd cymunedol yn ardal yr Harbwr. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n croesawu trafodaethau efo'r grŵp.

Tynnodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned sylw bod Croeso Cymru efo ymgyrch blwyddyn y môr yn 2018 gyda rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn cael eu cynnal ym Mae Caerdydd ond bod ystyriaeth yn cael ei roi i gynnal digwyddiadau cymunedol yn ogystal â bod angen cadw Porthmadog mewn cof.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

**6. ETHOL SYLWEDYDDION**

Adroddwyd bod angen ethol sylwedydd/ion i wasanaethu ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli.

**PENDERFYNWYD ethol Dr John Jones-Morris i wasanaethu fel sylwedydd ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli.**

**7. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 7 Mawrth, 2018.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.40pm

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **07 Mawrth 2018** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr** |
| **AWDUR** | **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig** |

## 1. Cod Diogelwch Porthladdoedd

1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' ac sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan staff harbyrau y Gwasanaeth. Mae yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch a hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol dydd i ddydd yn Harbwr Porthmadog.

1.2 Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a hyn yn adolygiad o drefniadau a sustemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd.

1.3 Yn dilyn adolygiad gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a gynhaliwyd ym mis Medi 2017 mae'r Gwasanaeth wedi derbyn adroddiad yn dilyn yr archwiliad gan yr arbenigwr allanol. Mae copi o'r adroddiad yn atodol ac fe fydd y Gwasanaeth yn gweithredu ar argymhellion yr archwilwyr yn ystod y misoedd nesaf. Croesawir sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad.

1.4 Fel ac yr adroddwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau sydd yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi pwy yw Daliwr Dyletswydd a'r Person Dynodedig.

1.5 Yn ystod yr ymweliad fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog (canolfan y gwaith archwilio) a Phwllheli. Ni fu iddynt ymweld ag Abermaw oherwydd cyfyngiadau mewn amser.

1.6 Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion diogelwch difrifol, safon neu ddiffygion yn yr harbyrau. Nodwyd gan yr archwilwyr fod cyfle i wella ar daclusrwydd oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Mae yn anorfod fod y materion hyn wedi eu gweithredu arnynt gan staff y Gwasanaeth yn ystod misoedd y gaeaf. Cyflwynwyd sylwadau ynglŷn â diffyg lled y sianel fordwyo yn harbwr Pwllheli. Ni chyflwynwyd sylw am faterion diogelwch yn harbwr Porthmadog.

1.7 Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol

1.8 Fe fydd archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r Cyngor yn ystod yr Hydref nesaf. Y bwriad yw bod dilyniant i'r adolygiad yn cael ei gynnal ar ddyddiad ble

cynhelir cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ble gwahoddir aelodau o holl Bwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Gwynedd i'r cyfarfod er derbyn cyflwyniad gan yr archwilwyr ar faterion sydd yn gysylltiedig â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Fe fydd hyn hefyd yn gyfle i Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol i holi'r arbenigwyr ar faterion yn ymwneud a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd ac i'r Archwilwyr gadarnhau cyfrifoldebau am gynnwys a gweithrediad y Cod Diogelwch.

## 2. Materion Gweithredol

2.1.1 Rhagwelir bydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal ar gymhorthion mordwyo Abermaw gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar y 14eg Awst 2018.

2.1.2 Yn y man mae 3 Rybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Porthmadog.

2.1.3 52°52.543' N 004°09.620' W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo Port - Rhif 2 QFl R ar ei safle priodol.

2.1.4 52°54.021'N 004°09.137'W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo Starboard- Rhif 9 Fl G 4 (15s) ar ei safle priodol.

2.1.5 52°52.746'N 004° 09.211'W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo Port – Rhif 4 Fl R (2s) ar ei safle priodol

2.1.6 Mae cwch Y Dwyfor yn cael ei chynnal a chadw er sicrhau fod y cwch yn cydymffurfio gyda'r Cod sydd yn berthnasol i gychod gwaith. Bydd y Cymhorthyddion Mordwyo yn cael eu hail leoli unwaith bydd gwaith cwch Y Dwyfor wedi ei gwblhau.

2.1.7 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa gyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn y cyfarfod.

2.1.8 Mae sianel fordwyo Harbwr Porthmadog wedi newid yn sylweddol dros fisoedd y gaeaf. Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel er ceisio sicrhau fod y cymhorthion mordwyo yn y lleoliad fwyaf addas. Oherwydd y newid cyson yn y sianel mae sicrhau fod y cymhorthion yn eu safle cywir yn heriol dros ben.

## 2.2 <u>Cynnal a chadw</u>

2.2.1 Bydd yr Uwch Swyddog Harbyrau yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu wedi ei weithredu arno yn Harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2017 ac yn cyflwyno manylion o'r gwaith sydd wedi ei gwblhau yn y cyfnod Ionawr - Chwefror 2018. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

2.2.2 Mae gwreiddiau coed yn achosi pryder a pherygl yn ardal yr harbwr. Mae staff yr harbwr wedi derbyn cyfarwyddyd i sicrhau fod y risg a achoswyd i gerddwyr oherwydd natur ansefydlog y slabiau cerdded yn cael ei leihau heb oedi.

2.2.3 Mae holl angorfeydd yn yr harbwr wedi eu harchwilio gan gwmni Deifio. Mae wedi ei adnabod bod angen adnewyddu 35 angorfa. Mae amcan bris am gadwyni a siacyls wedi ei dderbyn ac yr amcan bris mwyaf cystadleuol yw £5,100. Rhagwelir bydd gwaith gosod yr angorfeydd newydd oddeutu £3,000

2.3 **<u>Materion Staff</u>**

2.3.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Porthmadog (tymhorol) i ben yn swyddogol ar y 30ain Medi 2017. Er sicrhau cymorth gyda gwaith yr harbwr dros fisoedd y gaeaf fe fu i'r cytundeb gael ei ymestyn hyd at y 31 Rhagfyr 2017 pan death y cytundeb i ben.

2.3.2 Ar ddechrau mis Ionawr 2018 derbyniwyd cais gan Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon yn ceisio hawl i drafod cytundeb gwaith dros dro gyda'r Ymddiriedolaeth Harbwr. Cytunwyd i'r cais ac mae'r Swyddog bellach yn gyflogedig gan yr Ymddiriedolaeth Harbwr. Mae manteision i'r Harbwr gan fydd hyn yn ehangu profiad y Swyddog drwy weithio mewn harbwr amgen ac rydym yn hyderus bydd y profiad hwn yn cyfrannu at ei ddealltwriaeth a phrofiad o weithio mewn harbyrau eraill yng Ngwynedd.

2.3.3 Pleser hefyd yw adrodd bod y cyn Cymhorthydd Harbwr Abermaw (tymhorol) bellach wedi derbyn swydd gydag Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yng Nghaergybi. Roedd ei brofiad o weithio gyda thîm harbyrau Gwynedd wedi ehangu ar ei brofiad ac wedi rhoi sylfaen gryf iddo yn ei gais am y swydd. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt.

2.3.4 Fel rhan o'r tîm ehangach mae cymhorthydd harbwr tymhorol (Aberdyfi) yn parhau gyda chytundeb gwaith ac yn rhan o'r tîm ehangach oddi fewn y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig ac yn cefnogi a galluogi'r Gwasanaeth er ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau yn ardal Aberdyfi ac Abermaw.

2.3.5 Rhagwelir bydd y swyddi tymhorol yn dychwelyd ar sail llawn amser yn harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi ar y 1af Ebrill 2018 ac yn ymestyn hyd at 30 Medi 2018. Yn y man 7 aelod staff llawn amser sydd yn y Gwasanaeth Morwrol ac 1 rhan amser (gweinyddol) gydag 9 aelod staff yn yr Hafan.

2.4 **<u>Materion Eraill</u>**

2.4.1 **Arwyddion Diogelwch**. Mae'r Gwasanaeth, a hyn ar y cyd gyda Sefydliad y Bad Achub wedi cwblhau adolygiad manwl o'r holl arwyddion diogelwch oddi amgylch ardal yr Harbwr ger traeth Morfa Bychan. Mewn ymateb i'r archwiliad ac mewn ymgynghoriad gyda Mudiad y Bad Achub mae'r Gwasanaeth yn bwriadu archebu arwyddion newydd a fydd yn cael eu gosod ar sawl safle oddi amgylch ardal yr harbwr sydd yn ffinio a Thraeth Y Graig Ddu.

2.4.2 Fe fydd prif arwyddion yn cael ei gosod ar y Brif Fynedfa a mynedfa Ffordd Gwydryn gydag arwyddion llai yn cael eu gosod ger y Graig Ddu (llwybr arfordir,) mynedfa 'Greenacres' ac ardal Cwt Powdr.

2.4.3 Rhagwelir bydd cyfanswm cost yr arwyddion yn £4,000 gyda chost dylunio a rhag paratoi, sef paratoi templedi, yn £500 (eithrio TAW.) Fe fydd yr arwyddion yn cael eu danfon i'r harbwr erbyn canol mis Mehefin 2018 ac fe fawr obeithir bydd y prif arwyddion diogelwch ar eu safle priodol cyn cyfnod prif wyliau ysgolion. Oherwydd natur traeth Y Greig Ddu rhagwelir bydd angen tynnu'r arwyddion oddi ar y safle yn ystod misoedd y gaeaf er lleihau

difrod a achoswyd i'r arwyddion gan y tywydd garw. Ariannwyd y gwariant drwy gynllun TAIS, sef cronfa Twristiaeth Llywodraeth Cymru.

## 3. Materion Ariannol

3.1 Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr yn adrodd ar y sefyllfa ariannol gyfredol yn atodol. Bydd y sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd Chwefror 2018 yn cael ei ddosbarthu yn y cyfarfod.

3.2 **Ffioedd a Thaliadau 2018/19**. Mae taenlen ffioedd arfaethedig 2018 Harbwr Porthmadog eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau. Er yr adroddwyd y rhagwelwyd byddai chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2018/19 yn 1.85% mae'r canran chwyddiant wedi ei adolygu yn dilyn nifer o ffactorau sydd yn cael effaith ar chwyddiant. Cadarnheir bydd y raddfa chwyddiant ar gyfer harbwr Porthmadog yn 2018/19 yn cynyddu i 2.19% gyda chwyddiant cyfartaledd harbyrau Gwynedd yn 2.9%. Golygai bydd targed incwm yr harbwr yn cynyddu at £79,180 yn 2018/19.

3.3 Gan fod y gwasanaeth eisoes wedi cyfathrebu gyda chwsmeriaid yr harbwr y bwriad yw awgrymu bod y ffioedd a thaliadau yn parhau i gynyddu 2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol 2018/19. Gan fydd diffyg bosibl yn yr incwm fe fydd angen sicrhau fod y Gwasanaeth yn adnabod cyfleoedd incwm angen ac yn lleihau gwariant bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

3.4 Yn 2017 roedd yn ofyn ar y Cyngor i ychwanegu ffi am bob angorfa, a hyn ym mhob Harbwr sydd dan reolaeth a chyfrifoldeb y Cyngor. Mae'r ffi wedi ei ychwanegu gan Stad Y Goron sydd yn hawlio £25.00 gan bob unigolyn sydd ag angorfa yn yr harbwr. Mae gofyn fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Harbwr, yn codi ac yn casglu'r ffi hwn ar ran Asiant Y Goron. Ni does TAW ynghlwm a'r ffi ychwanegol. Mae'r ffi ychwanegol hefyd yn daladwy am angorfeydd ymwelwyr ac fe fydd gofyn fod y taliad hwn yn cael ei ariannu drwy gyllideb yr Harbwr.

3.5 Gan na fod cytundeb gydag Asiant Y Goron wedi ei gadarnhau nid oedd y ffi yn daladwy yn 2017/18. Rhagwelir bydd prydles newydd yn cael ei chadarnhau gan Asiant Y Goron yn ystod 2018 ac felly fe fydd y ffi ychwanegol yn daladwy gan holl ddalwyr angorfeydd.

| Maritime & Coastguard Agency | |
|---|---|
| Cyf: | MNA 053/010/0480 |
| Dyddiad: | 08 Hydref 2017 |
| Tud. Rhif 1 | |

**Math:** **Gwiriad Iechyd – Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

**Porthladd:** **Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Harbwr ar gyfer Porthmadog, Pwllheli, Abermaw ac Aberdyfi**

**Diben:** **Ymweliad Allanol**

| Awdur: | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|
| Forkanul Quader<br>David Turner | 19 a 20 Medi 2017 | |

| Hanes y Fersiwn | Dyddiad | Sylwadau |
|---|---|---|
| Drafft Cyntaf | 21 Medi 2017 | |
| | | |
| | | |
| | | |

GEIRFA

| | |
|---|---|
| ALARP | Mor Isel ag sy'n Ymarferol Resymol |
| CHA | Awdurdod Harbwr Cymwys |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| PD | Person Dynodedig |
| HF | Harbwrfeistr |
| GTGP | Canllaw Arfer Dda |
| KPI | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| MAIB | Cangen Ymchwiliadau Damweiniau Morol |
| MPX | Master/Pilot Exchange |
| PMSC | Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd |
| PEC | Tystysgrif Eithrio Llywio |
| MAIB | Cangen Ymchwiliadau Damweiniau Morol |
| MSMS | System Rheoli Diogelwch Morol |
| SHA | Awdurdod Harbwr Cymwys |
| VTS | Gwasanaeth Traffig Cychod |
| LPS | Gwasanaethau Porthladd Lleol |

## 1. Cefndir

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod harbwr statudol â statws bwrdeistrefol ar gyfer y porthladdoedd a ganlyn – Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Defnyddir y porthladdoedd yn bennaf at ddibenion hamdden a physgota, ac maent wedi'u lleoli yn ardal arfordirol gogledd-orllewin Cymru, gerllaw Bae Ceredigion.

Cyn yr ymweliad anfonwyd *aide-memoire* at yr Harbwrfeistr gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) yn gofyn am sylwadau oedd yn cyfateb i'r PMSC ac i adran berthnasol System Rheoli Diogelwch y Porthladd. Diben hyn yw cynorthwyo'r MCA gyda'r "Gwiriad Iechyd" a darparu sylfaen ar gyfer archwiliad pellach yn ystod yr ymweliad. Er mai Cyngor Gwynedd sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb y deiliad dyletswydd, y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sy'n goruchwylio'r gweithgareddau gweithredol, ar y cyd â thîm o Harbwrfeistri.

## 2. Cyflwyniad

Cynhaliwyd "Gwiriad Iechyd" o System Rheoli Diogelwch Awdurdod Harbwr Gwynedd yr MCA a adolygwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC).

Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 a 20 Medi, a defnyddiwyd swyddfa Harbwr Porthmadog fel y prif ganolfan ar gyfer yr ymweliad. Arweinyddion tîm yr MCA oedd Forkanul Quader a David Turner.

Darparodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleusterau ar gyfer y broses wirio yn swyddfa harbwr Porthmadog, gan gynnwys rhoi mynediad i'r holl ddogfennau angenrheidiol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymweliad, ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddatganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod yn ei gyfanrwydd nac unrhyw ran ohono.

## 3. Sgôp

Diben y "Gwiriad Iechyd" yw asesu a yw'r porthladd, ar ddyddiau'r ymweliad, yn gweithredu'r PMSC yn effeithiol. Mae'r PMSC yn berthnasol i bob Awdurdod Harbwr yn y DU â chanddynt bwerau a dyletswyddau statudol. Bwriad yr ymweliad yw cynghori a chynorthwyo'r porthladd i weithredu'r Cod, ac i wella diogelwch y porthladd wrth wneud hynny.

Yr oedd y gwiriad iechyd hwn yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1, Manylion y Porthladd | ✓ |
| 2. Y Person Dynodedig | ✓ |
| 3. Deiliaid Dyletswydd | ✓ |
| 4. Dyletswyddau a Phwerau | ✓ |
| 5. Ymgynghori a Lledaenu Gwybodaeth | ✓ |
| 6. Asesu Risg | ✓ |
| 7. System Rheoli Diogelwch | ✓ |
| 8. Pwerau a Gorfodaeth | ✓ |
| 9. Cynlluniau Llywio a Phasio | Amh.<br>Dim ond Porthmadog |
| 10. Cychod Gweithio, Cychod Tynnu a Gwasanaethau Morol | ✓ |
| 11. Rhwymedigaethau Gwarchodaeth | ✓ |
| 12. Cyfarwyddiadau | ✓ |
| 13. Hyfforddiant | ✓ |
| 14. Gwasanaethau Traffig Cychod | Amh. |
| 15. Dogfennau a Gyhoeddwyd | ✓ |
| 16. Gwiriad terfynol | ✓ |

Ar ôl yr ymweliad, bydd tîm "Gwiriad Iechyd" yr MCA yn cynhyrchu adroddiad byr i grynhoi enghreifftiau o'r gwelliannau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod harbwr. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwelliannau a welwyd yn ystod yr ymweliad, ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddatganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod yn ei gyfanrwydd nac unrhyw ran ohono.

## 4.

**Trosolwg**

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Harbwr Statudol (SHA) ar gyfer pedwar porthladd - Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Mae darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn berthnasol i bob un ohonynt. Mae prif ardal yr awdurdod arfordirol yn ymestyn o Abergwyngregyn i'r dwyrain o Fangor hyd at Ddoc Fictoria ar y Fenai yng Nghaernarfon, ac i Aberdyfi ym Mae Ceredigion. Rheolir pob harbwr o ddydd-i-ddydd gan yr Harbwrfeistr a benodwyd gan y Cyngor, a gweithredir pob porthladd yn dechnegol o dan bolisïau a rheolaeth unedol y Cyngor. Mae gan Harbwr Porthmadog statws Awdurdod Harbwr Cymwys (CHA) ac mae'n darparu gwasanaeth llywio yn ôl yr angen, er na chafwyd cais am y gwasanaeth hwn ers rhai blynyddoedd. Porthmadog yw'r unig harbwr yng Nghyngor Gwynedd â'r statws hwn, ac mae'r statws CHA yn cael ei adolygu'n barhaus.

O dan Harbwr Gwynedd, uchafswm yr angorfeydd posib yn y porthladdoedd yw: Porthmadog - 238, Pwllheli – 490 (412 ohonynt yn Angorfeydd yn y Marina), Abermaw – 140, ac Aberdyfi - 120. Dyma yw niferoedd uchaf posib yr angorfeydd. Yn 2017 niferoedd y cychodd wedi'u hangori oedd: Porthmadog - 135, Pwllheli – 490 (306 ohonynt yn Angorfeydd yn y Marina a 60 ar angorfeydd eraill), Abermaw – 86, ac Aberdyfi - 78.

**Ymweliad**

Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 a 20 Medi 2017. Dangosodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynghyd â'r Uwch Swyddog Harbwr a'r Harbwrfeistr (Porthmadog) ymrwymiad clir at y PMSC, gan sicrhau'r tîm ymweld eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol tuag at weithredu darpariaethau'r PMSC.

Swyddogion Gwynedd oedd yn bresennol yn ystod y Gwiriad Iechyd oedd: -

Mr. Barry Davies – Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr. Arthur Francis Jones – Uwch Swyddog Harbwr
Malcolm Humphreys – Harbwrfeistr (Porthmadog)
William Williams – Rheolwr Harbwr (Pwllheli - yn rhannol bresennol)
William Stockford – Harbwrfeistr (Aberdyfi - yn rhannol bresennol)
Capt. Mathew Forbes – Person Dynodedig (Harbwrfeistr Conwy)

## 4.1 Canfyddiadau Harbwr Gwynedd

**Gwelliannau**

Adnabuwyd rhai gwelliannau penodol, ond ar y cyfan gwelwyd bod dull cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfennaeth, wedi'i ddefnyddio wrth lunio'r System Rheoli Diogelwch Morol (MSMS) a'r Cynllun Gweithredu Morol cysylltiedig. Fodd bynnag, canfyddodd y tîm Gwiriad Iechyd bod rhai tasgau hanfodol gan gynnwys archwilio mewnol, archwilio allanol ac adnabyddiaeth gywir o'r Deiliad Dyletswydd dal heb eu cwblhau. Mae'n bwysig crybwyll hefyd i'r tîm Gwiriad Iechyd ganfod fod y prosesau gweithredol yn drefnus.

Mae'r canfyddiadau a nodir isod yn gysylltiedig â'r sylwadau ar statws y Cynllun Gweithredol Morol (SMS). Bydd angen ail-ymweld â'r Cynllun Gweithredol Morol er mwyn unioni'r System Rheoli Diogelwch Morol gyda'r PMSC a'r GTGP.

Cytunodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, yr Uwch Swyddog Harbwr, yr Harbwrfeistri perthnasol a'r Person Dynodedig y byddai'n rhaid cynnal ymweliad gwiriad iechyd arall gan dîm Gwiriad Iechyd yr MCA yn ystod y cyfnod 12 mis nesaf.

Adnabuwyd nifer o welliannau a fyddai'n gwella'r modd y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'r Cod. Y rhain yw:

**<u>Deiliad Dyletswydd</u>**

Ar hyn o bryd, y Deiliad Dyletswydd tybiedig yw Dirprwy Bennaeth yr Adran Economi a Chymuned (DBEC). Y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sy’n goruchwylio gweithrediad y pedwar porthladd o dan y DBEC. Yn unol â'r PMSC, gall aelod o'r tîm rheoli neu'r Bwrdd fod yn Ddeiliad Dyletswydd gydag atebolrwydd cyhoeddus am y Cod PMSC.

Deallir mai'r DBEC yw'r Deiliad Dyletswydd ar gyfer Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG), ac nad yw'n aelod etholedig o'r Cyngor, ac felly nid yw'n atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Er bod aelodau'r cyngor ar y cyd (ac yn unigol) yn gallu ymrwymo i'r PMSC, dylid ystyried ffurfio pwyllgor craidd i ysgwyddo cyfrifoldeb y Deiliad Dyletswydd neu enwebu aelod o'r cyngor i weithredu fel y deiliad dyletswydd. Byddai modd i'r DBEC a benodir gynorthwyo'r Deiliad Dyletswydd.

GTGP: 2.2.19, 2.2.23, 2.2.31

**Person Dynodedig**

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod Harbwr wedi penodi Person Dynodedig cymwys. Nid yw'r penodiad hwn wedi'i gwblhau'n ffurfiol. Felly mae angen ffurfioli'r penodiad drwy anfon llythyr at y Person Dynodedig a benodwyd.

GTGP: 2.2.25

**System Rheoli Diogelwch Morol (MSMS)**

Mae'r Awdurdod Harbwr wedi dewis defnyddio'r Cynllun Gweithredu Morol fel eu MSMS. Rhaid adolygu'r ddogfen i adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau cywir y deiliad dyletswydd. Yn ogystal mae angen ffurfioli'r Cynllun Gweithredu Cyfredol yn MSMS. Mae modd i'r Awdurdod Harbwr ddefnyddio MSMS cyffredin, gan alluogi i'r porthladdoedd unigol ddatblygu system yn seiliedig ar risg i ymdrin â risgiau gweithredol pob porthladd.

GTGP: 4.1.3, 5.1.5

**Archwiliadau Mewnol**

Ni chanfuwyd cofnod o unrhyw archwiliadau mewnol. Dylid cynnal archwiliadau mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn.

GTGP: 5.1.1

**Archwiliad Person Dynodedig**

Nid oedd unrhyw gofnodion o archwiliadau a gynhaliwyd gan y PD yn unol ag adran 2.2.30 GTGP. Nid oedd tystiolaeth o gyflwyno unrhyw adroddiad i'r Deiliad Dyletswydd nac i'r corff llywodraethu. Dylai'r PD gyflwyno adroddiad monitro i'r Deiliad Dyletswydd ac i'r bwrdd rheoli.

GTGP: 2.2.30

**Archwilio Allanol**

Ni chanfuwyd cofnod o unrhyw archwiliad allanol. Dylid cynnal archwiliadau allanol yn gyson. GTGP: 5.1.1

**Cynllun Diogelwch**

Dylai Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG) ystyried cyhoeddi Cynllun Diogelwch bob tair blynedd yn unol â'r PMSC ble dengys sut y bydd y bwriedir cwrdd â'r safonau.

GTGP: 2.2

**Gwarchodaeth**: GLA/Trinity House

Dylai AHG gael llythyr gan GLA/Trinity House ar ôl cwblhau'r holl waith gwarchodaeth sydd ar y gweill. GTGP: 7.5.5

**Cydymffurfiaeth â Chod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC)**

Pan fyddant yn fodlon eu bod yn cydymffurfio â'r PMSC, dylai AHG anfon llythyr at yr MCA. Ni wnaed hyn ers 2013.

PMSC: 2.31 GTGP: 2.12

**Statws Awdurdod Harbwr Cymwys (CHA)**

Dylai AHG adolygu ei statws CHA i weld a oes angen statws CHA gyda chydymffurfiaeth gyflawn. GTGP: 9.2

**Iechyd a Diogelwch**

AHG i adolygu ei statws archwilio I&D cyfredol i gynnwys elfennau morol ynghyd â'r gweithgareddau cysylltiedig ar y pier. GTGP: 6.6

**Matrics Hyfforddi**

Cytunwyd y byddai creu matrics hyfforddiant i staff a chynllun hyfforddiant cysylltiedig yn fuddiol, a bod angen cwblhau hyn.

GTGP: 12.2.1

**Llaid yn Harbwr Pwllheli**

Gwelwyd bod lefel y llaid yn y sianel sy'n arwain i'r harbwr yn parhau i gynyddu. Mae hyn wedi lleihau lled y dŵr sydd ar gael, yn yr ardal bwysicaf sy'n arwain i mewn i'r harbwr, yn sylweddol. Felly, dylid mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n rhwystro carthu digonol.

GTGP: 7.4.2

**ARFERION GORAU**

**Ymgynghori**

Yr oedd cynnwys sector pysgota masnachol Aberdyfi yng nghyfarfodydd pwyllgor ymgynghorol yr harbwr yn gam cadarnhaol, a dylid archwilio ymhellach a oes modd cael PFDs Mullion wedi'u hariannu gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop.

**Cyfleusterau Morol**

Yr oedd y cyfleusterau ym Mhorthmadog yn gynhwysfawr, ac wedi'u hategu gan rhestrau gwirio a gweithdrefnau wedi'u strwythuro'n dda. Un elfen a nodwyd yn arbennig oedd y pwysau angori o goncrit oedd wedi'u gosod mewn teiars fel bod modd eu rholio i'w lle.

**Asesiad risg**

Gwelwyd fod gan bob porthladd asesiadau risg wedi'u diweddaru a'u strwythuro'n dda.

## 5. Casgliad

Yr oedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn amlwg wedi gwneud ymdrech fawr i ddatblygu'r MSMS newydd a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Ymddengys bod y ddogfen yn adlewyrchu arferion cyfredol yn fras.

Yn awr, y flaenoriaeth yw dechrau ar adolygiad o'r System Rheoli Diogelwch cyfredol a'r Cynllun Gweithredol i weithredu a rheoli'r gweithgareddau o dan yr SMS yn ffurfiol. Mae hyn yn hanfodol wrth nesáu at gydymffurfio â'r PMSC gan nad yw'n ymddangos bod egwyddorion yr SMS yn cael eu dilyn ar hyn o bryd.

Felly, bwriad yr MCA yw cynnal gwiriad iechyd arall o fewn 12 mis i gadarnhau bod yr SMS a'r gweithdrefnau cysylltiedig wedi'u rhoi ar waith a'u bod yn rheoleiddio gweithgareddau'r harbwr yn effeithiol. Byddai hyn yn cynorthwyo i roi sicrwydd bod yr harbwr yn cydymffurfio â'r PMSC. Felly, dylai pwyllgor craidd yn cynnwys, fel awgrymwyd, y Deiliad Dyletswydd ac Aelodau o'r Cyngor, fod yn barod i gydnabod eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y PMSC a chynnig cefnogaeth ac adnoddau i uwch staff gwblhau'r gwaith da sy'n mynd rhagddo.

Dylai Cyngor Gwynedd, fel y Deiliad Dyletswydd, hefyd gydnabod nad yw'r Awdurdod Harbwr yn cydymffurfio'n llwyr ar hyn o bryd, ac felly mae Aelodau'r Cyngor ar y cyd yn agored iawn i atebolrwydd a allai godi o achosion o esgeulustod yn yr harbwr.

## 6. Sylwadau yr Awdurdod Harbwr

Yr oedd holl swyddogion Cyngor Gwynedd fu'n rhan o'r gwaith a wnaed gan y tîm Gwiriad Iechyd ar ran yr MCA, yn gwerthfawrogi'r dull cadarnhaol ac adeiladol a ddilynwyd wrth gynnal y gwiriad iechyd. Gwerthfawrogwyd dull gweithredu proffesiynol, gwybodus a chwrtais y tîm Gwiriad Iechyd.

Mae'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig wedi dangos eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion y PMSC ers ei gyflwyno, ac wedi cymryd camau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y cod.

Bydd y sylwadau cadarnhaol a'r gwelliannau a awgrymwyd gan y Tîm Gwiriad Iechyd yn derbyn sylw a bydd camau priodol yn cael eu cymryd cyn yr ymweliad sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref/Tachwedd 2018.

Mae'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig yn cydnabod bod potensial i Aelodau Cyngor Gwynedd fod yn agored i atebolrwydd a gyfyd yn sgil achosion posib, ac ystyrir sefydlu Deiliad Dyletswydd wedi'i ddiffinio os caniateir gweithdrefnau o'r fath.

Fodd bynnag, pwysleisir bod holl staff yr harbyrau wedi derbyn hyfforddiant priodol ac wedi cymhwyso mewn prosesau Iechyd a Diogelwch. Mae proses eisoes yn bodoli i adnabod yr holl risgiau posib o fewn yr harbyrau sydd o dan awdurdod y gwasanaeth. Eisoes mae gweithredu wedi digwydd, a bydd yn parhau i ddigwydd, yn unol ag egwyddor ALARP, er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau a adnabyddir yn parhau i fod mor isel â phosib er mwyn diddymu peryglon o'r fath.

Drwy broses ymgynghorol, mae Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lleol cyfrifol, yn sicrhau bod yr harbyrau o dan ei awdurdod yn derbyn lefel uchel o gefnogaeth a gwasanaethau gweinyddol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod Pwyllgorau Ymgynghorol yr Harbwr ar gyfer pob harbwr unigol yn gweithredu'n unol â disgwyliadau'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

| Maritime & Coastguard Agency | |
|---|---|
| Cyf: | MNA 053/010/0480 |
| Dyddiad: | 08 Hydref 2017 |
| Tud. Rhif 11 | |

Cynhelir cyfarfodydd ymgynghorol yr harbwr ddwywaith y flwyddyn yn Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli. Maent yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth. Mae'r aelodau yn gwbl gyfarwydd â chynnwys Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd a dyma un o brif eitemau'r rhaglen ym mhob cyfarfod Pwyllgor.

Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn derbyn adborth ar yr holl faterion sy'n ymwneud â gweithrediadau'r harbwr o dan gylch gorchwyl y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Drwy gael amrediad eang o gynrychiolwyr lleol wedi'u hethol ar bob Pwyllgor Ymgynghorol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ganddo arbenigedd eang ar draws y diwydiant morol, ynghyd â'r cymunedau hamdden morol a physgota.

Yn y sylw a wnaed gan y tîm Gwiriad Iechyd, nodwyd mai Dirprwy Bennaeth yr Adran Economi a Chymuned yw'r Deiliad Dyletswydd tybiedig, gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn goruchwylio gweithrediad y pedwar porthladd o dan awdurdod Cyngor Gwynedd.

Er mai'r DBEC yw'r uwch reolwr llinell ar gyfer y gwasanaeth, Bwrdd y Cyngor (sef Cabinet y Cyngor yn flaenorol) oedd wedi'i nodi yn y gorffennol fel y Deiliad Dyletswydd ar y cyd ar gyfer y PMSC yng Ngwynedd.

DBEC yw'r Deiliad Dyletswydd ar gyfer Awdurdod Harbwr Gwynedd (AHG), nid yw'n aelod etholedig o'r Cyngor ac felly, fel y nodwyd gan y tîm Gwiriad Iechyd, mae'n bosib nad yw'n atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Bydd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn sicrhau y ceir eglurder ar fater y Deiliad Dyletswydd, ac y bydd yn cael ei gadarnhau fel mater o frys.


Rydym yn gytûn yn ein casgliad y bu'r Gwiriad Iechyd o fudd mawr i'r Uned Morwrol a Pharciau Gwledig, er y pryderon blaenorol, ac mae'r gwasanaeth yn edrych ymlaen at gyfathrebu'n rheolaidd gyda'r tîm Gwiriad Iechyd ar faterion sy'n ymwneud â'r PMSC yng Ngwynedd, ac yn edrych ymlaen at yr adolygiad Gwiriad Iechyd ym mis Hydref/Tachwedd 2018. Bryd hynny rydym yn rhagweld y bydd y materion a godwyd gan y tîm gwiriad iechyd wedi derbyn sylw.

# HARBWR PORTHMADOG HARBOUR

Mae'r sianel yn newid cwrs yn rheolaidd. Cynghorir bod morwyr yn cysylltu gyda'r Harbwrfeistr am y wybodaeth diweddaraf.

The channel changes course regularly. Please contact the Harbourmaster for the latest information

01766 512927 / 07879433147
VHF Channel 12 / 16




| Uned Morwrol Harbwr Porthmadog Harbour Latitude & Longitude 22/01/2018 | | | |
|---|---|---|---|
| Fairway | Fl w 10s | 52° 52.351 N | 004° 10.013 W |
| No 1 | Fl G | Tor parhad dros dro | Temp Discontinuance |
| No 2 | Q Fl R | 52° 52.543 N | 004° 09.620 W |
| No 3 | Fl G 3s | Tor parhad dros dro | Temp Discontinuance |
| No 4 | Fl R (2) 5s | 52° 52.746 N | 004° 09.211 W |
| No 5 | Fl G (2) 5s | 52° 53.069 N | 004° 09.377 W |
| No 6 | Fl R (3) 10s | 52° 53.733 N | 004° 09.437 W |
| No 7 | Fl G (3) 10s | 52° 53.674 N | 004° 09.476 W |
| No 8 | Fl R (4) 15s | 52° 53.428 N | 004° 09.646 W |
| No 9 | Fl G (4) 15s | 52° 54.021 N | 004° 09.137 W |
| No 10 | Fl R 2.5s | 52° 54.251 N | 004° 08.856 W |
| No 11 | Fl G (5) 20s | Tor parhad dros dro | Temp Discontinuance |
| No 12 | Fl R 4s | 52° 54.562 N | 004° 08.534 W |
| No 13 | Fl G 2s | 52° 54.419 N | 004° 08.686 W |
| No 14 | Fl R 6s | 52° 54.784 N | 004° 08.113 W |
| No 15 | Fl G (2) 5s | 52° 54.878 N | 004° 07.968 W |
| No 17 | Fl G 6s | 52° 55.015 N | 004° 07.866 W |

## RHYBUDD / WARNING

CYNGHORIR MORWYR I BEIDIO Â MORDWYO DROS Y DRAETHELL ONI BAI ODDI FEWN 2 AWR POB OCHR PEN LLANW (DIBYNNOL AR GYFLWR Y MÔR). I GYCHOD GYDA DRAFFT FWY NA 1.5 MEDR CYNGHORIR MORWYR I BEIDIO MORDWYO DROS Y DRAETHELL ODDI FEWN 1.5 AWR POB OCHR PEN LLANW.

THE CHANNELSHOULD NOT BE USED AT ANY TIME OTHER THAN 2 HOURS EITHER SIDE OF HIGH WATER (DEPENDENT UPON SEA STATE). VESSELS WITH A DRAFT GREATER THAN 1.5 METRES SHOULD ONLY USE THE CHANNEL 1.5 HOURS EITHER SIDE OF HIGH WATER.

DARLUN EGLURHAOL: NID YW CAEL EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO
ILLUSTRATION: NOT TO BE USED FOR NAVIGATION